# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4901

# 115

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2. Dirprwyodd Rhun ap Iorwerth ar ran Arweinydd Plaid Cymru.

### Pwynt o Drefn

Cododd Rhun ap Iorwerth Bwynt o Drefn o dan Reol Sefydlog 13.9, mewn perthynas â defnydd y Prif Weinidog o ddata personol yn ystod ei sylwadau i Adam Price AC yn gynharach yn ystod yr eitem Cwestiynau i'r Prif Weinidog. Gwahoddwyd y Prif Weinidog i ymateb gan y Llywydd, a dywedodd y Llywydd y bydd yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater o rannu data a'i berthnasedd i'n Rheolau Sefydlog yma, gan ddychwelyd at y mater os oes angen.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.20

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Diwygio Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 14.52

## 4 Datganiad gan Arweinydd y Tŷ: Cyflymu Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.01

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Diogelu'r Hawl i Addysg Addas i bob Plentyn

Dechreuodd yr eitem am 16.52

## Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)

Cynigiodd y Llywydd fod eitemau 6 a 7 yn cael eu trafod gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân. Ni wrthwynebwyd hyn gan Aelod.

## 6 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018

Dechreuodd yr eitem am 17.27

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

NDM6637 Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2018.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 3 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 7 Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2018

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

NDM6639 Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2018.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 3 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (45 munud)

Cynigiodd y Llywydd fod eitemau 6 a 7 yn cael eu trafod gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân. Gwrthwynebwyd hyn gan Aelod, felly trafodwyd yr eitemau ar wahân a phleidleisiwyd arnynt yn unigol.

## 8 Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018

Dechreuodd yr eitem am 17.35

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

NDM6640 Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2018.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 50 | 3 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 9 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018

Dechreuodd yr eitem am 17.59

NDM6638 Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2018.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018

Dechreuodd yr eitem am 18.01

NDM6641 Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2018.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.01

## Crynodeb o Bleidleisiau 30.01.2018

Daeth y cyfarfod i ben am 18.04

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 31 Ionawr 2018**